WG35.5-95

Thomas Jones

# MARWNAD,

ER

## COFFADWRIAETH

AM Y

## PARCH. EDWARD JONES,

PENTREF-TY-GWYN,

YR HWN A HUNODD

RHAGFYR 15ed, 1841, YN 31ain OED.

---

GAN JOHN POWELL,
BAILYBEDW.

---

*"Oblegyd yr oedd efe yn wr da ac yn llawn o'r Yspryd Glan ac o ffydd."*

---

LLANYMDDYFRI:

ARGRAFFWYD GAN JAMES MORRIS.

1842

X205310841

Thomas Jones

CLYWCH gyfeillion mwynion ffyddlon,
Y newyddion sydd yn awr,
Fod rhyw gyfaill anwyl, anwyl,
Wedi 'i dori'n llwyr i lawr,
Gan yr angeu, brenin creulon,
'R hwn sy'n gweithio nos a dydd;—
Llefwn bawb am fod yn barod,
Ein tro ninau'n sydn fydd.

2 Aeth y ffyddlon Jones, o'r Pentre',
Yn fuan adre, i deyrnas ne',
Ac mae heddyw'n beraidd foli,
(O mor hyfryd, ddedwydd le,)
Gyda'r Seintiau, a'r Seraphiaid,
Wrth ei fodd yn canu fry,
Ac yn seinio Haleluia,
Am rinweddau Calfari.

3 Gweithiwr grymus yn ei fywyd,
Gwas i Iesu, yn y byd;
Chwylio'n ddiwyd y ffordd oreu,
I ladd pechodeu'r oedd o hyd.
'R Arglwydd godo weithwyr eto,
Cyfrwys, grymmus fel efe,
Fel y gallont fod yn ffyddlon,
Gael afradlon tua thre'.

4 'R oedd e'n gadarn, gryf ryfelwr,
'N myddin Iesu, Brenin mawr,
'R oedd ar un waith am falurio
Teyrnas satan ffwrdd i lawr;
'D oedd am daflu'r baich i arall,
Gweithiwr caled yn ei ddydd;—
'Nogau bawb i fod yn ddiwyd,
I gael noddfa gref trwy ffydd.

5 Ond y nawr mae wedi'n gadael,
Ni chawn gynghor ganddo mwy,
Hiraeth creulon, trwm yw'n calon,
Ni chawn weled gyda'n hwy,
Gyda'i frodyr yn pregethu,—
Crist yn enwog ddodai' ma's,
Anfeidroldeb drefn cadw,
Trefn gyson, trefn gras.

6 Pan y byddai' yn pregethu,
Mewn cymmanfa, neu rhyw fan,
Annogaethol, addysgiadol,
Byddai gryf,—ni byddai wan;
Neu pan ddodyd ef i sylwi
Ar rhyw bwnc a f'au o bwys,
Treiddiau iddo, dodai'n eglur,
O'r dyfnderoedd ar eu pwys.

7 Er ei ddoniau, a'i bregethau,
A'i ddaioni yn y byd,
Tua'r diwedd fe'n gadawodd,
Fe ffarwelodd a ni gyd;
Daccw heilltion ddagrau'n treiglo,
Dros wynebau llawer nawr;
Oedd e'n gyfaill anwyl iddynt,
Pan'r oedd yma ar y llawr.

8 Galar sydd yn Nghefnerthan,
Pentre', Bethel, ar ei ol,
A Llan'ddyfri, a Llansadwrn,
A Llandilo nid yw'n ol,
Bethlehem hefyd, a Llangadog,
Sardis, Myddfau, gyda nhwy,
Rhydybont, a Ffald y Brenin,
Ni che'wch chwythau glywed mwy.

9 A Chwmwysc, ac hefyd Brychgod,
Troedrhiwdalar, nac un lle,
Na Llanwrtyd, bu'n pregethu,—
Ffarwel, ffarwel, darfu e'.
Rhyfedd hynod y llafuriodd,
Ac y chwiliodd bethau ma's,
Pethau buddiol dros ei Arglwydd,—
Iddo bu yn ffyddlon was.

10 Deg, a phedair o flynyddau,
Bu dan faner Iesu mawr,
Dani yr arosodd hefyd,
Nes i'w haul e' fyn'd i lawr;
Deg o hyn y bu'n pregethu,
Ac yn dodi Crist i ma's,
Fel yr unig ffordd i achub,—
Achub rhag y gollfa gas.

11 Pedair blynedd, chwech o fisodd,
Rhyw beth rhagor 'nawr at hyn,
Bu yn gweinyddu swpper sanctaidd,
Dan y gwr fu ar y bryn:
Da, defnyddiol, hynod ffyddlon,
Bu e'n gweithio 'i amser ma's;
Ond fe'i cwympwyd er mor ffyddlon,
Gan yr angeu creulon cas.

12 Yn mis Mai y ca'dd ei urddo,
*Fresh* yw'r cofio sydd am hyn;
Oed ein Ceidwad y pryd hyny,
('R hwn fu farw ar y bryn,)
Deunaw cant, a thri o ddegau,
Saith o flwyddi, gwel ni gawn
Oedran Iesu y pryd hyny,—
*Ordainasion* gyson iawn.

13 Duw a dynion yn cyd weithio,
'Roi gweinidog ini'n wir;
Er ein galar fe'n gadawodd,—
Gad'wodd yn yr anial dir;
Y mae heddyw'n nef y nefoedd,
Gyda'r dorf aneirif fawr,
Yn cyd seinio fyth hosana,
Can mil gwell nac ar y llawr.

14 Dydd yr angladd, torf o ddynion
A ymgasglodd tua'r lle,
I gael gwneud gymwynas ola',—
Myn'd a'i anwyl gorph tua thre',
I'r gwael weli prydd i orwedd,
Hyd udganiad udgorn Duw,
Pan y deffri teulu'r dyffrin,
Gyda'r floedd hwy ddo'nt yn fyw.

15 Ar bymthegfed o fis Rhagfyr,
'Hedodd ef o dir y byw,
Un-ar-ddeg ac ugain hefyd,
Oedd ei oed pan alwodd Duw;
Fe adawodd ei chwiorydd,—
Brawd y'nghyfraith iddo sydd,
Yn galaru a wylofain,
Au calonau 'nawr yn brudd.

16 Dydd yr angladd y pregethodd
Parchedigion, enwog rai,
Jones, C'rigbar, a Williams hefyd,
O Lanwrtyd, yn ddifai;
Yn y Cefn y traddododd
Jones beth buddiol i'r rhai byw,
Williams hefyd yn y Pentre',—
Crist ein bywyd, ni gawn fyw.

17 Jones, Ffald'brenin, fe areithiodd,
Hynod ddwys ar lan y bedd:
Teimlad llawer oedd yn ddrylliog,
Er diameu'i fod mewn hedd,
Pan yn meddwl na chaent glywed,
Gair o'i enau yma mwy;
Ffarwel, ffarwel fe'n gadawodd,
Mae'n calonau bron yn ddwy.

18 Jones oedd ddyn a'u farn yn iachus,
Am yr Iachawdwriaeth lawn;
Crist bregethai yn y boreu,
Crist bregethai y prydnawn;
Crist yn bob peth fe bregethai,—
Dyoddefaint ydoedd iawn;
Crist yn noddfa i bechadur,—
Iddo rhedwn bawb, a ffown.

19 Fe gynghorai'r ieu'nctyd tirion,
Fod yn gyson wrth y gwaith,
I weddio bawb, a gwilio,—
Hynod fyr, a brai yw'r daith;
'R oedd e'n rhyfedd am wel'd rhinwedd
Mewn rhai mwynedd, y'mhob man,
Caru Crist a pharch o'n calon;
O na bai E' imi'n rhan.

20 Pan bo i'n meddwl y cynghorion,
Roddodd ini lawer gwaith,
Mae fy llygaid 'nawr yr ddeigrau
Yma yn yr anial maith,
Pan bo'i'n meddwl am y golled,
Oedd ei golli yn y byd;
Mewn Eglwysi bu'n pregethu,—
Gwel'd y golled maent o hyd.

21 Eglwys Pentre', Cefnerthan,
Dwys fyfyriwch ar ei ôl,
Am y golled, pam y collsoch,
Pam 'r'ich yma, chwi sy'nôl;
Chwi hen dadau, ac hen famau,
Ceisoch chwithau golled ddwys,
Colled fawr yw'r golled yma,
Colled hefyd sydd o bwys.

22 Gwelais ddeigreu dros wynebau,
Rai hen deidau gyda ni,
'R oedd fy nheimlad, o mor ddrylliog,
Beth wnawn innau'r ie'nctyd sy';
Os yn golled i'r hen deidau,
Rhai cyfarwydd ar y llawr,
Plant i ninau yn y frwydir,
Rhaid i fod yn golled fawr.

23 Ond pan oeddwn i mewn syndod,
A'r rhyfeddod 'nawr am hyn,
Codi 'ngolwg 'nes i rhyw fodd,
Fynydd fry i ben y bryn,
At yr Iesu 'r cyfaill ffyddlon,
Fu dan hoelion ar y gro's,
Yn diodde'r ddwyfol ergyd,
A'r arteithiau chwerw lo's.

24 Dyma'r bugail mawr yn Israel,
Bugail cadarn, bugail cu,
Ni wna angau ddim i'w rwystro,
Bydd yn wastad gyda ni;
Brenin mawr yr holl frenhinoedd,
Arglwydd yr arglwyddi yw,
Hedwn ato hen ac ieuanc,
Tan ei loches i gael byw.

J. MORRIS, ARGRAFFYDD, LLANYMDDYFRI,